
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1469 (Cy. 140) (C. 57)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol, Darfodol ac Arbed) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - - 12 Mehefin 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 322(2) a 325(3) a (4) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol, Darfodol ac Arbed) (Cymru) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cytundeb awdurdod lleol” (“*local authority agreement*”) yw cytundeb y mae gan berson hawl oddi tano i osod cartref symudol ar safle sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol yng Nghymru;

ystyr “cytundeb presennol” (“*existing agreement*”) yw cytundeb awdurdod lleol a wnaed cyn y diwrnod penodedig;

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Cartrefi Symuol 1983(2);

ystyr “Deddf 2008” (“*the 2008 Act*”) yw Deddf Tai ac Adfywio 2008;

ystyr “diwrnod penodedig” (“*appointed day*”) yw'r diwrnod a bennir gan erthygl 2;

ystyr “llain” (“*pitch*”) yw tir, sy'n ffurfio rhan o safle sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol yng Nghymru, ac sy'n cynnwys unrhyw ran ar gyfer gardd, y mae hawl gan berson i osod cartref symudol arno;

ystyr “llain barhaol” (“*permanent pitch*”) yw llain y mae hawl gan berson i osod cartref symudol arni o dan delerau cytundeb y mae Deddf 1983 yn gymwys iddo ac nad yw'n llain bontio;

ystyr “llain bontio” (“*transit pitch*”) yw llain y mae hawl gan berson i osod cartref symudol arni o dan delerau cytundeb y mae Deddf 1983 yn gymwys iddo, am gyfnod penodedig o hyd at 3 mis:

(1) 2008 p.17.

(2) 1983 p.34.

ystyr “safle sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol” (“local authority gypsy and traveller site”) yw unrhyw dir a feddiennir gan awdurdod lleol fel safle carafannau sy’n darparu llety i sipsiwn a theithwyr; ac

ystyr “sipsiwn a theithwyr” (“gypsies and travellers”) yw personau sydd ag arferion byw nomadig, beth bynnag fo’u hil neu’u tarddiad, ond nid yw’n cynnwysaelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe neu bobl sy’n ymwneud â syrcasau teithiol ac yn cyd-deithio fel y cyfryw(3).

(3) Mae i ymadroddion eraill, a ddefnyddir ond nas diffinnir yn y Gorchymyn hwn, ac y defnyddir yr ymadroddion Saesneg sy’n cyfateb iddynt yn Neddf 1983 yn ogystal, yr un ystyron yn y Gorchymyn hwn â’r ymadroddion Saesneg hynny yn Neddf 1983.

Diwrnod penodedig: safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol

2.—(1) 10 Gorffennaf 2013 yw’r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau canlynol, i’r graddau y maent yn gymwys i Gymru—

- (a) adran 318 (safleoedd cartrefi symudol gwarchodedig i gynnwys safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr) of the 2008 Act;
- (b) adran 321(1)(diddymiadau) o Ddeddf 2008 ac Atodlen 16 iddi, i’r graddau y mae a wnelont â’r diddymiadau canlynol—

<i>Enw</i>	<i>Diddymiad</i>
Deddf Cartrefi Symudol 1983 (p.34)	Yn adran 5(1), yn y diffiniad o “protected site”, y geiriau o “does not include” i “that,”;
Deddf Cyflawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p.33)	Yn adran 80(4), y geiriau o “in the definition” i “1983 or”.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthyglau 3 i 7.

Lleiniau pontio: arbedion at ddibenion penodol o Ddeddf 1983

3. Nid yw’r diddymiadau a wneir gan y darpariaethau a ddygir i rym gan erthygl 2 yn gymwys at ddibenion adrannau 1(3), (4) a (6) a 2(2) i (4) o Ddeddf 1983(4), i’r graddau y maent yn ymwneud â llain bontio.

Cytundebau presennol: darpariaeth drosiannol gyffredinol

4. Mae Deddf 1983 yn gymwys i gytundeb presennol fel y byddai’n gymwys i gytundeb awdurdod lleol a wnaed wedi i’r darpariaethau a ddygir i rym gan erthygl 2 a Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 Ddiwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol (Cymru) 2013(5) ddod i rym, ond mae hyn yn ddarostyngedig i erthygl 5.

Cytundebau presennol: datgymwysiadau trosiannol o delerau a rhwymedigaethau penodol

5.—(1) Nid yw adrannau 1(2) i (9) a 2(2) i (4) o Ddeddf 1983 yn gymwys i gytundeb presennol.

(3) Mae adran 5 o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983, cyn ei diwygio gan adran 318 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p.17), yn darparu nad yw Deddf 1983 yn gymwys i dir a feddiennir gan awdurdod lleol fel safle carafannau sy’n darparu llety i ‘gypsies’. Diddymwyd y diffiniad o ‘gypsies’ y dibynnai’r eithriad hwnnw arno gan adran 80 o Ddeddf Cyflawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p. 33), er diffiniad gael ei arbed at y diben o ddehongli adran 5. Mae’r diffiniad hwn o ‘sipsiwn a theithwyr’ yn deillio o’r diffiniad hwnnw a arbedwyd.

(4) 1983 p.34. Yng Nghymru a Lloegr, amnewidiwyd adran 1 a diwygiwyd adran 2 gan adrannau 206 a 265 o Ddeddf Tai 2004 (p.34) a pharagraff 9 o Atodlen 15 i’r Ddeddf honno.

(5) O.S. 2012/1723. (Cy. 167)

(2) Mewn perthynas â chytundeb presennol—

- (i) os cychwynnir achos cyfreithiol y mae terfynu'r cytundeb yn fater sy'n codi ynddo cyn y diwrnod penodedig, nid yw paragraffau 3 a 4 (terfynu) o Bennod 3, na pharagraffau 3 i 6 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (pa bynnag Bennod sy'n gymwys yn yr achos penodol dan sylw) yn gymwys;
- (ii) nid yw paragraff 8 (ailosod cartref symudol) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys i ofyniad bod hawl y meddiannydd i osod y cartref symudol yn arferadwy, am unrhyw gyfnod, mewn perthynas â llain arall os gwneir y gofyniad cyn y diwrnod penodedig;
- (iii) nid yw paragraff 15(2) a (6) i (11) (ffi llain) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys mewn perthynas â'r adolygiad cyntaf o'r ffi llain o dan y cytundeb hwnnw os yw dyddiad adolygu'r ffi llain, ar gyfer yr adolygiad hwnnw, o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod penodedig;
- (iv) nid yw paragraff 16 (ffi llain) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys os cyflawnwyd gwaith mewn perthynas â gwelliant cyn y diwrnod penodedig;
- (v) ni cheir gorfodi paragraff 19(c) a (d) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno mewn perthynas ag unrhyw doriad o'r cytundeb sy'n digwydd o fewn 3 mis i'r diwrnod penodedig;
- (vi) nid yw paragraff 19(e) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys mewn perthynas â chostau a threuliau a dynnwyd cyn y diwrnod penodedig;
- (vii) nid yw paragraff 20(f) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys pan fo gwaith mewn perthynas â'r gwelliannau yn cychwyn cyn y diwrnod penodedig, neu o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod penodedig; a
- (viii) nid yw paragraff 20(g) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi cyn y diwrnod penodedig, neu o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod penodedig.

Cytundebau presennol: dyletswydd awdurdod lleol i ddarparu datganiad ysgrifenedig

6.—(1) Mewn perthynas â chytundeb presennol yngylch llain sydd, yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, yn dod yn llain barhaol, rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod penodedig, roi i'r parti arall i'r cytundeb ddatganiad ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â'r paragraffau canlynol.

(2) Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig—

- (a) nodi enwau a chyfeiriadau'r partïon;
- (b) cynnwys manylion am y llain sy'n ddigonol ar gyfer ei hadnabod;
- (c) nodi'r telerau a gynhwysir yn benodol yn y cytundeb;
- (d) nodi'r telerau a fydd yn oblygedig yn rhinwedd cymhwys Deddf 1983 i'r cytundeb; ac
- (e) bod yn y ffurf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn neu ffurf sydd â'r un effaith o ran ei sylwedd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), bydd unrhyw deler penodol a gynhwysir yn y cytundeb yn anorfodadwy gan awdurdod lleol neu gan unrhyw berson o fewn adran 3(1) o Ddeddf 1983, oni fydd y teler hwnnw wedi ei nodi mewn datganiad ysgrifenedig a roddwyd i'r parti arall yn unol â pharagraff (1).

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn methu â rhoi i'r parti arall i'r cytundeb ddatganiad ysgrifenedig yn unol â pharagraff (1), caiff y parti arall, ar unrhyw adeg wedi i'r cyfnod o 28 diwrnod y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw ddod i ben, wneud cais i dribiwnlys am orchymyn sy'n gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol—

- (a) yn rhoi i'r parti hwnnw ddatganiad ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â pharagraff (2)(a) i (e), a
 - (b) yn gwneud hynny ddim hwyrach na'r cyfryw ddyddiad a bennir yn y gorchymyn.
- (5) Ym mharagraff (4), mae i "tribiwnlys" yr ystyr a roddir i "tribunal" yn Neddf 1983 ac y mae awdurdodaeth tribiwnlys o dan y paragraff hwnnw i'w thrin fel awdurdodaeth o dan Ddeddf 1983.
- (6) Ceir cyflwyno datganiad y mae'n ofynnol ei roi i berson o dan yr erthygl hon naill ai i'r person hwnnw'n bersonol neu ei anfon drwy'r post.
- (7) Rhaid peidio â thrin datganiad ysgrifenedig o dan yr erthygl hon fel pe bai'n ddatganiad ysgrifenedig at ddibenion adran 1 neu 2 o Ddeddf 1983.
- (8) Rhaid peidio â thrin datganiad ysgrifenedig o dan yr erthygl hon fel pe bai'n ddatganiad ysgrifenedig at ddibenion Pennod 4 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983.

Cytundebau presennol: arbediad cyffredinol

7. Nid yw'r diddymiadau a wneir gan y darpariaethau a ddygir i rym gan erthygl 2 yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedigaeth sydd wedi cronni mewn perthynas â chytundeb presennol, nac unrhyw rwymedi mewn perthynas ag unrhyw hawl neu rwymedigaeth o'r fath.

Huw Lewis

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

12 Mehefin 2013

YR ATODLEN

Erthygl 6(2)

Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â Deddf Cartrefi Symudol 1983

PWYSIG – OS GWELWCH YN DDA, DYLECH DDARLLEN Y DATGANIAD HWN YN OFALUS A'I GADW MEWN LLE DIOGEL. MAE'N NODI AR BA DELERAU Y MAE HAWL GENNYCH I GADW EICH CARTREF SYMUDOL AR Y SAFLE, AC YN RHOI GWYBOD AM YR HAWLIAU A RODDIR ICHI GAN Y GYFRAITH. OS OES RHYWBETH NAD YDYCH YN EI DDEALL, DYLECH OFYN AM GYNGOR (ER ENGHRAIFFT GAN GYFREITHIWR NEU GANOLFAN CYNGOR AR BOPETH).

RHAN 1

Telerau Penodol (ac eithrio'r rhai a bennir yn Rhan 4)

1. Mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983") yn gymwys i'r cytundeb.

Partïon i'r cytundeb

2. Y partïon i'r cytundeb yw—

(Enw a chyfeiriad person sydd â hawl i osod cartref symudol ar y llain)

(Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol)

Dyddiad cychwyn

3. Dechreuodd y cytundeb ar..... (Mewnosoder dyddiad)

Manylion am y llain

4. Manylion y tir lle mae hawl gennych i osod eich cartref symudol yw—

Plan

5. Mae plan wedi ei atodi i'r datganiad hwn, sy'n dangos—

(a) maint a lleoliad y llain;

(b) maint y sylfaen y gosodir y cartref symudol arni; ac

(c) mesuriadau o'r pellteredd rhwng y llain a'r sylfaen a phwyntiau sefydlog y gellir eu hadnabod ar y safle.

Buddiant yr awdurdod lleol

6. Bydd ystâd neu fuddiant yr awdurdod lleol yn y tir yn dod i ben ar..... (Os yw'r datganiad hwn yn gymwys, mewnosoder dyddiad); neu

Bydd caniatâd cynllunio'r awdurdod lleol ar gyfer y safle yn dod i ben ar..... (Os yw'r datganiad hwn yn gymwys, mewnosoder dyddiad)

Mae hyn yn golygu na fydd eich hawl i aros ar y safle yn parhau y tu hwnt i'r naill neu'r llall o'r dyddiadau hyn, oni fydd buddiant yr awdurdod lleol neu'r caniatâd cynllunio yn cael ei estyn. (Os un, yn unig o'r datganiadau hyn sy'n gymwys, dilêwch y geiriau nad ydylt yn gymwys. Os nad oes yr un o'r datganiadau hyn yn gymwys, dilêwch y paragraff hwn).

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Ffi llain

7. Mae'r ffi llain yn daladwy yn wythnosol/ misol/ chwarterol /blynnyddol. (Dileer y geiriau nad ydymt yn gymwys)

Y ffi llain yw.....

Mac'r gwasanaethau canlynol wedi eu cynnwys yn y ffi llain—

Dŵr

Carthffosiaeth

.....

(Dilewch y gwasanaethau nad ydymt wedi eu cynnwys ac ychwanegwch unrhyw wasanaethau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y ffi llain)

Adolygu'r ffi llain

8. Bydd y ffi llain yn cael ei hadolygu ar

Y dyddiad hwn yw'r dyddiad adolygu.

Ffioedd ychwanegol

9. Codir ffi ychwanegol am y materion canlynol—

.....

.....

(Rhestrwch y materion y codir ffi ychwanegol amdan ymni)

RHAN 2

Gwybodaeth am eich hawliau

Deddf 1983

1. Oherwydd bod gennych gytundeb gydag awdurdod lleol sy'n rhoi ichi'r hawl i gadw eich cartref symudol ar safle'r awdurdod ac i fyw ynddo fel cartref i chi, mae gennych hawliau penodol o dan Ddeddf 1983, sy'n effeithio'n benodol ar ddiogelwch eich deiliadaeth ac ar yr adolygiad o'r ffi llain.

Telerau goblygedig

2. Mae'r hawliau hyn, sy'n gynwysedig yn y telerau goblygedig a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn, yn gymwys yn awtomatig, ac ni ellir eu gwrrhwneud, cyhyd ag y bydd eich cytundeb yn parhau'n gytundeb y mac Deddf 1983 yn gymwys iddo.

Telerau penodol

3. Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw un o'r telerau penodol yn eich cytundeb (fel y'u nodir yn Rhan 4 o'r datganiad hwn), dylech eu trafod gyda'r awdurdod lleol, a allai gytuno i'w newid.

Telerau annheg

4. Os ydych o'r farn bod unrhyw un o delerau penodol y cytundeb (fel y'u nodir yn Rhan 4 o'r datganiad hwn) yn annheg, cewch gwyno yn unol â darpariaethau Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999(a), wrth y Swyddfa Masnachu Teg neu wrth unrhyw gorff cymwys.

RHAN 3

Telerau Goblygedig

O dan Ddeddf 1983, mae rhai telerau wedi eu cynnwys yn awtomatig yn eich cytundeb. Pennir y telerau hyn yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983.

(*Y telerau goblygedig i'w mewnusod gan yr awdurdod lleol*)

RHAN 4

Telerau penodol y cytundeb

Mae'r rhan hon o'r cytundeb ysgrifenedig yn nodi telerau eraill y cytundeb, a gytunwyd rhyngoch chi a'r awdurdod lleol, yn ychwanegol at y telerau goblygedig.

(*Y telerau penodol i'w mewnusod gan yr awdurdod lleol*)

(a) O.S. 1999/2083.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu mai 10 Gorffennaf 2013 yw'r diwrnod y bydd adran 318 (safleoedd cartrefi symudol gwarchodedig i gynnwys safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008") a diddymiadau perthynol yn Atodlen 16 i'r Ddeddf honno yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru.

Canlyniad cychwyn adran 318, fydd gwneud cytundebau mewn perthynas â lleiniau ar gyfer sipsiwn a theithwyr ar safleoedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983"). Mae hyn yn efelychu'r hyn a wnaed yn Lloegr gan Orchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol, Darfodol ac Arbed) 2011(6), a gychwynnodd adran 318 o Ddeddf 2008 mewn perthynas â Lloegr ar 30 Ebrill 2011.

Mae erthyglau 3 i 7 yn gwneud darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed mewn perthynas â chytundebau yngylch lleiniau ar gyfer sipsiwn a theithwyr ar safleoedd awdurdodau lleol. Mae erthygl 3 yn arbed datgymwysiadau o ddarpariaethau penodol ynglŷn â chytundebau yngylch lleiniau pontio. Yn fras, mae'r datgymwysiadau hyn yn peri nad yw'r terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer darparu datganiad ysgrifenedig, yr hawl i geisio gorchymyn tribiwnlys mewn perthynas â rhoi datganiad ysgrifenedig a'r hawl i wneud cais i'r tribiwnlys am ddiwygio telerau cytundeb o'r fath, yn gymwys i'r cytundebau hynny.

Mae erthygl 4 yn darparu y bydd Deddf 1983 yn gymwys i bob cytundeb ar gyfer gosod cartref symudol ar safle sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol sy'n bodoli yng Nghymru pan gychwynnir adran 318 o Ddeddf 2008, fel y byddai'n gymwys i unrhyw gytundeb o'r fath a wneid ar ôl y cychwyn. O ganlyniad, bydd y telerau a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1983, fel y'u mewnosodwyd gan Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2013, yn oblygedig mewn cytundebau o'r fath.

Mae erthygl 5 yn datgymhwys, mewn perthynas â chytundeb presennol, ddarpariaethau penodol yn adrannau 1 a 2 o Ddeddf 1983 ac Atodlen 1 i'r Ddeddf honno (a fewnosodwyd yn Neddf 1983 gan Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2013).

Mae erthygl 6 yn ddarpariaeth ddarfodol sy'n gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn rhoi datganiad ysgrifenedig i feddianwyr lleiniau parhaol o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod penodedig; ac y mae'r erthygl (a'r Atodlen i'r Gorchymyn) yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r datganiad ei gynnwys.

Mae erthygl 7 yn ddarpariaeth arbed gyffredinol, sy'n sicrhau nad effeithir ar hawliau a rhwymedigaethau o dan y cytundebau presennol, o ganlyniad i gymhwys Deddf 1983 i'r trefniadau presennol.

NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r darpariaethau o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008") yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru gan Orchymynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2008 hefyd wedi eu dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr yn unig gan yr Offerynnau Statudol canlynol:

[O.S. 2008/3068](#), [O.S. 2009/803](#), [O.S. 2009/2096](#) ac [O.S. 2011/1002](#).

Gweler hefyd adran 325(6) o Ddeddf 2008 am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 22 Gorffennaf 2008 (y diwrnod y pasiwyd Deddf 2008).

Gweler hefyd adran 325(2) o Ddeddf 2008 am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 22 Medi 2008 (sef ar ddiwedd cyfnod o 2 fis ar ôl pasio Deddf 2008).

Mae'r darpariaethau yn Neddf 2008 sydd yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Darpariaeth	Dyddiad Cychwyn	Rhif yr O.S.
adrannau 1 i 3 ac Atodlen 1	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 4	8 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 , O.S. 2008/3068 ac O.S. 2010/862
adrannau 5 i 18 ac Atodlenni 2 i 4	1 Rhagfyr 2008	O.S. 2008/3068
adran 19	1 Rhagfyr 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/3068 ac O.S. 2010/862
adrannau 20 i 30	1 Rhagfyr 2008	O.S. 2008/3068
adran 31	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adrannau 32 a 33	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adran 34	1 Ebrill 2009	O.S. 2009/803
adran 35	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 36	1 Ebrill 2009	O.S. 2009/803
adran 37	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adrannau 38 i 43	1 Rhagfyr 2008	
adran 44	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 45	1 Rhagfyr 2008	
adrannau 46 a 47	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 48	1 Rhagfyr 2008	O.S. 2008/3068
adran 49	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 50 ac Atodlen 5	8 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008 ac 1 Ebrill 2009	O.S. 2008/2358 , O.S. 2008/3068 ac O.S. 2009/803
adran 51 ac Atodlenni 6 a 7	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adrannau 52 i 55	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 56 ac Atodlen 8	8 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008, 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 , O.S. 2008/3068 , O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adran 57	8 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 , O.S. 2008/3068 ac O.S. 2010/862

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

<i>Darpariaeth</i>	<i>Dyddiad Cychwyn</i>	<i>Rhif yr O.S.</i>
adran 58	8 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008, 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358, O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adran 59	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adrannau 60 i 63	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 64	16 Chwefror 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/363 ac O.S. 2010/862
adrannau 65 i 71 ac Atodlenni 6 a 7	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 72	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adrannau 73 i 80	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 81 i 85	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 86	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 87 i 92	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 93	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2009/803
adran 94	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adrannau 95 i 98	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 99 i 104	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 105	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adrannau 106 i 111	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adrannau 112 a 113	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 114	8 Medi 2008 ac 7 Medi 2009	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2009/2096
adran 115	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 116	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 117	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 118	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 119	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 120 i 126	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 127	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 128 i 130	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862

Darpariaeth	Dyddiad Cychwyn	Rhif yr O.S.
adran 131	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 132 i 143	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adrannau 144 a 145	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adrannau 146 i 173	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adran 174	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 175 i 191	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adrannau 192 i 197	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 198	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 199 i 201	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 202	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adrannau 203 i 211	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 212	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 213	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 214	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 215	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358 ac O.S. 2010/862
adran 216	8 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adrannau 217 i 227	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 228	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adrannau 229 i 233	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 234	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adrannau 235 i 239	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 240	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adrannau 241 i 243	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 244	1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adrannau 245 i 274	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

<i>Darpariaeth</i>	<i>Dyddiad Cychwyn</i>	<i>Rhif yr O.S.</i>
adrannau 275 a 276	8 Medi 2008 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358, O.S. 2010/862
adran 277 ac Atodlen 9	8 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008, 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2010	O.S. 2008/2358, O.S. 2008/3068, O.S. 2009/803 ac O.S. 2010/862
adran 278	1 Ebrill 2010	O.S. 2010/862
adran 299 ac Atodlen 11	1 Rhagfyr 2008 ac 20 Mai 2009	O.S. 2008/3068, O.S. 2009/1261
adran 311 ac Atodlen 14	1 Rhagfyr 2008	O.S. 2008/3068
adran 314 ac Atodlen 15 (yn rhannol)	2 Mawrth 2009	O.S. 2009/415
adran 316	7 Medi 2009	O.S. 2009/2096
adran 317	22 Medi 2008	O.S. 2008/2358
adran 321 ac Atodlen 16 (yn rhannol)	22 Medi 2008, 1 Rhagfyr 2008, 2 Mawrth 2009, 1 Ebrill 2009, 20 Mai 2009 ac 7 Medi 2009	O.S. 2008/2358, O.S. 2008/3068, O.S. 2009/415, O.S. 2009/803, O.S. 2009/1261 ac O.S. 2009/2096